# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 7 Mai 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddNHAMG@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (13:30 - 14.00) - PREIFAT**

**CYHOEDDUS (14:00 - 15:30)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(14:00)

**2 COVID 19: Sesiwn dystiolaeth gyda Lywodraeth Cymru**

(14:00-15:30) (Tudalennau 1 - 13)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr - Llywodraeth Cymru

Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg - Llywodraeth Cymru

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio - Llywodraeth Cymru

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau - Llywodraeth Cymru
Keith Smyton, Pennaeth yr Adran Bwyd - Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil

## 3 Papur i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

(Tudalennau 14 - 29)

Dogfennau atodol:
Llythyr

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

**PREIFAT (15:30 - 16:00)**

## 5 Covid-19: Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 2

## 6 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

## 7 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU

(Tudalennau 30 - 53)

Dogfennau atodol:
Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1429-20

Mike Hedges AC
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mike.Hedges@assembly.wales

1 Mai 2020

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU. Nodaf eich bod yn ceisio ymateb ysgrifenedig, gan na allaf fynychu sesiwn dystiolaeth.

Mae'r pandemig COVID-19 presennol yn parhau i effeithio ar hynt y Bil drwy Senedd y DU a Senedd Cymru (y Senedd). Yn wreiddiol, fy mwriad oedd gofyn am ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd ganol mis Mai. Fodd bynnag, mae'r diffyg cynnydd yn golygu y byddai'r amserlen hon ar gyfer dadl yn rhy gynnar. Byddaf yn ailystyried hyn unwaith y bydd gennyf ddarlun gwell o'r amseriadau ar gyfer camau'r Bil drwy Senedd y DU.

Ar adeg ysgrifennu, nid oes cadarnhad o'r dyddiadau pan fydd y Bil yn mynd drwy gam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi, ond mae fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion Defra a byddant yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod digon o amser i'r Senedd graffu arno.

Nodaf fod y Pwyllgor Busnes wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o 7 Mai i 21 Mai ac rwy'n ddiolchgar i'r Tîm Clercio am gytuno ar estyniad byr i ddyddiad ymateb y llythyr hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Amcanion Pysgodfeydd**

**1. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fanteision yn sgil y newidiadau hyn? A wnewch chi gynnwys enghreifftiau penodol o sut y gallai'r newidiadau hyn ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng Nghymru?**

**2. A allwch chi egluro pwrpas ac effaith arfaethedig yr amcanion 'budd cenedlaethol' a 'newid yn yr hinsawdd'? Sut bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu ym mholisi pysgodfeydd y dyfodol yng Nghymru?**

Atebaf eich dau gwestiwn cyntaf gyda'i gilydd. Prif fantais y newidiadau a'r amcanion newydd yw y bydd un gyfres o amcanion cryfach ar gyfer pysgodfeydd ledled y DU er mwyn sicrhau fframwaith mwy cydlynol yn y DU. Roedd y Bil blaenorol yn cynnwys is-set o amcanion sydd wedi'u cynnwys erbyn hyn yn y prif amcanion yng nghymal 1, gan sicrhau bod y broses o lunio polisïau pysgodfeydd yn fwy cydlynol ar draws y pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd.

Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi polisïau'r pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd a nodir ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, nid yw cyd-ddatganiad yn golygu y bydd yn rhaid i bob un o weinyddiaethau'r DU roi'r un polisïau ar waith er mwyn bodloni'r amcanion yn y Bil. Mewn llawer o achosion, ni fyddai hyn yn briodol oherwydd y gwahanol fathau o bysgodfeydd ledled y DU, a'r gwahanol fflydoedd ym mhob Gweinyddiaeth. Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, y cytunir arno ar y cyd, yn gyfreithiol gyfrwymol.

Rydym yn ymrwymedig i gynnal neu wella'r trefniadau diogelu amgylcheddol sydd gennym ar waith, gan gynnwys ein hymrwymiadau parhaus i reoli ein pysgodfeydd yn unol â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Ni fydd unrhyw gamu'n ôl o'r safonau rydym wedi ymrwymo iddynt yn yr amgylchedd morol. Y llynedd, mabwysiadwyd y Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf erioed yng Nghymru sy'n nodi gweledigaeth 20 mlynedd ar gyfer sicrhau bod moroedd Cymru yn lân, yn iach ac yn gynhyrchiol.

Wrth i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae datblygu Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd i Gymru yn flaenoriaeth allweddol. Byddwn yn adeiladu ar y sylwadau a gafwyd drwy Brexit a'n Moroedd, a byddwn yn parhau i gydweithio er mwyn cyflawni ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd. Mae ymadael â'r UE a, thrwy hynny, y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, yn rhoi cyfle i ni ystyried polisi pysgodfeydd integredig a fydd yn diwallu anghenion pysgotwyr Cymru a'n cymunedau arfordirol. Wrth wraidd hyn mae polisi pysgodfeydd sy'n cydnabod yr angen i sicrhau bod cymunedau arfordirol yn cael mwy o fudd o'r adnodd cyhoeddus hwn, ac y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i gael budd o'n stociau ar yr un pryd. Mae hyn yn bwysicach nag erioed wrth i ni helpu'r diwydiant i godi ar ei draed unwaith eto yn sgil effaith pandemig COVID-19. Roeddwn i'n bwriadu gwneud datganiad ysgrifenedig ar ganlyniad Brexit a'n Moroedd ac amlinellu'r camau nesaf ar gyfer ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd y mis diwethaf. Fodd bynnag, penderfynais oedi er mwyn i ni allu ystyried effeithiau COVID-19 ar ein diwydiant a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â threfniadau pontio'r UE.

Yr "amcan mantais genedlaethol" yw bod gweithgareddau pysgota cychod pysgota'r DU yn dod â manteision cymdeithasol neu economaidd i'r Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Er enghraifft, gallai hyn olygu y bydd angen i o leiaf rai dalfeydd lanio ym mhorthladdoedd y DU. Ar hyn o bryd, cyflawnir yr amcan hwn drwy'r amod cyswllt economaidd yn y system drwyddedu.

Mae'r "amcan newid yn yr hinsawdd" yn nodi bod angen lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a welir yn sgil gweithgareddau pysgota a dyframaethu cymaint â phosibl, a bod angen i weithgareddau pysgota a dyframaethu addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae'r amcan hwn yn cydnabod effaith pysgota ar iechyd ein cefnforoedd. Yng Nghymru, mae gennym ddyletswyddau o dan ein deddfwriaeth ein hunain, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ynghyd ag ymrwymiadau clir i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Felly, rydym yn cefnogi cynnwys yr amcan hwn, sy'n dwyn Bil y DU yn agosach at y sefyllfa gyfredol yng Nghymru, a byddwn yn nodi ein polisïau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.

**3. Dim ond i bysgod o ddisgrifiad gwahanol y mae'r diffiniad o 'sgil-ddalfa' yn berthnasol. A fydd yr 'amcan sgil-ddalfa' yn ei gwneud yn ofynnol i bysgotwyr lanio pob pysgodyn gan gynnwys unrhyw symiau gormodol o bysgod a allai beri iddynt fynd y tu hwnt i'r cwota ar gyfer y stoc honno?**

Os dargedwir y Rhwymedigaeth Lanio, bydd angen glanio unrhyw symiau o rywogaethau targed sydd y tu hwnt i'r terfynau cwota awdurdodedig ar gyfer cwch. Cyfrifir ar gyfer y cwota dros ben sy'n cael ei lanio yn erbyn y cwota cenedlaethol ar gyfer y rhywogaeth honno.

**4. A allwch chi egluro pam nad yw'r elfen lanio o'r 'amcan sgil-ddalfa' yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth lanio o dan Erthygl 15 o'r Rheoliadau Polisi Pysgodfeydd Cyffredin o ystyried bod y rhwymedigaeth hon yn cael ei dargadw yng nghyfraith y DU? A allwch chi ein sicrhau na fydd hyn yn arwain at gymryd cam yn ôl o gymharu â'r rhwymedigaeth gyfredol?**

Mae'r amcan yn cynnwys gofynion presennol y Rhwymedigaeth Lanio a'r hyblygrwydd yn Erthygl 15 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i'n galluogi i reoli gweithgareddau yn ein dyfroedd yn unol â'r Rhwymedigaeth Lanio, lle y bo'n gymwys. Mae'r amcan wedi'i ailddrafftio er mwyn adlewyrchu'r canlyniad rydym yn anelu at ei gyflawni yn fwy cywir, sef rhoi diwedd ar yr arfer wastraffus o waredu pysgod sy'n rhan o 'sgil-ddalfa'.

Mae'r Rhwymedigaeth Lanio yn Erthygl 15 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael ei chario drosodd fel cyfraith yr UE a ddargedwir. Ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, byddwn yn gallu datblygu polisi neu bolisïau ar waredu pysgod sy'n gweddu orau i'n diwydiannau ac sy'n diogelu'r amgylchedd morol. Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi'r ffordd y bydd y gweinyddiaethau pysgodfeydd yn cyflawni'r "Amcan Sgil-ddalfa', naill ai'n unigol neu ar y cyd.

**5. Beth yw eich ymateb i bryderon nad yw Bil 2019-21 yn bodloni'r ymrwymiad cyfreithiol i'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf, ac felly'n gam yn ôl o gymharu â'r safonau amgylcheddol cyfredol?**

Mae pob un ohonom yn awyddus i bysgota mewn ffordd gynaliadwy, a'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf yw'r safon ryngwladol. Yn wir, dywedais yn glir y gallai Bil Pysgodfeydd y DU fynd ymhellach o ran y cynnyrch cynaliadwy mwyaf, a gwn fod awydd gweld gofyniad cyfreithiol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i bysgota ar lefel y cynnyrch cynaliadwy mwyaf neu'n is na hynny.

Mae angen i ni hefyd gydnabod nad y DU yw'r unig barti â buddiant. Caiff bron pob un o'n stociau eu rhannu'n rhyngwladol. Caiff y cwotâu blynyddol eu pennu yn ystod trafodaethau rhwng gwledydd arfordirol. Nid yw dyletswydd sy'n gyfreithiol gyfrwymol ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU gerdded i ffwrdd pe na bai'r gwledydd eraill yn dod i gyfaddawd, yn fuddiol i neb a gallai arwain at bennu cwotâu unochrog anghynaliadwy.

Rydym yn ymrwymedig i bysgota ar lefelau islaw'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf fel y'i cynghorwyd gan ICE, lle y bo'n briodol. Mae'n bwysig bod Gweinidogion, wrth gymryd y penderfyniadau anodd hyn, yn gallu parhau i gydbwyso pob elfen o gynaliadwyedd.

**6. A allwch esbonio pam, yn wahanol i Fil 2017-19, nad yw Bil 2019-20 yn dirymu Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin?**

Bydd yr amcanion pysgodfeydd yn y Bil yn disodli'r amcanion presennol yn Erthygl 2 er mwyn sicrhau bod y polisi yn gyson â chyfraith yr UE a ddargedwir. Cyflawnir hyn drwy ddiwygio cyfeiriadau presennol at Erthygl 2 yn y llyfr statud. Bydd hyn yn sicrhau bod y polisïau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn cyfateb yn well i'r cyfeiriadau presennol hynny, ac mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU.

**7. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael â gweinyddiaethau'r DU cyn cyflwyno Bil 2019-21 ynglŷn â chynnwys gofyniad o'r fath yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Bil? Beth oedd canlyniad y trafodaethau?**

**8. Yn absenoldeb gofyniad ym Mil y DU i adolygu'r amcanion pysgodfeydd, a allwch chi roi sicrwydd i'r Cynulliad y byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd yng Nghymru, ac egluro pa fecanweithiau a roddir ar waith i ddarparu ar gyfer hyn?**

Atebaf gwestiynau 7 ac 8 gyda'i gilydd. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am godi'r pwynt hwn wrth graffu ar y Bil blaenorol a gofynnodd fy swyddogion am ddiwygiad ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, yn dilyn ystyriaeth gan bob un o'r pedair gweinyddiaeth, y farn gyfunol oedd nad oedd angen cynnal adolygiad ar wyneb y Bil, o ystyried natur lefel uchel yr amcanion hyn. Yn wir, mae'n anodd anghytuno â'r amcanion pysgodfeydd yn fy marn i. Yr amcanion hyn yw conglfeini'r broses o reoli pysgodfeydd modern ac rydym am weld sicrwydd yn cael ei gynnal ac osgoi sefyllfa lle y cânt eu newid yn rheolaidd.

Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r cylch adolygu chwe blynedd, sy'n ofynnol gan y Bil, yn rhoi cyfle i ymgynghori a chraffu ar b'un a yw'r mesurau sydd ar waith yn ddigonol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

**Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd**

**9. Beth yw pwrpas ac effaith arfaethedig y darpariaethau newydd mewn perthynas â chynlluniau rheoli pysgodfeydd? A allwch chi egluro sut rydych chi'n credu y bydd y darpariaethau ychwanegol hyn yn eich cynorthwyo i ddatblygu polisïau ar gyfer pysgodfeydd Cymru?**

Dywedais yn glir y gallai Bil Pysgodfeydd y DU fynd gam ymhellach o ran y cynnyrch cynaliadwy mwyaf, ac rwy'n falch o weld y newidiadau'n cael eu cynnwys wrth gyflwyno'r Bil sy'n gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau bod ein pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, bod datganoli yn cael ei barchu a bod y realiti ymarferol sy'n gysylltiedig â rheoli pysgodfeydd yn cael ei gydnabod.

Mae'r darpariaethau hyn yn gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Yn unol â'r darpariaethau, mae angen cynnwys datganiad yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ar y ffordd y bydd gweinyddiaethau pysgodfeydd yn defnyddio cynlluniau rheoli pysgodfeydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion hynny. Bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn cynnwys rhestr o gynlluniau i'w datblygu a rhaid iddo nodi amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r cynlluniau.

Ar gyfer pob stoc a gwmpesir mewn cynllun, mae'n rhaid iddynt nodi a yw'r dystiolaeth wyddonol yn ddigonol i allu cynnal asesiad o gynnyrch cynaliadwy mwyaf stoc ac, os felly, mae'n rhaid iddynt nodi polisïau ar gyfer adfer y stoc i lefelau cynaliadwy, neu ei chynnal ar y lefelau hynny, neu gyfrannu at wneud hynny. Os nad oes digon o dystiolaeth, mae'n rhaid iddynt nodi polisïau ar gyfer cynnal neu gynyddu lefelau'r stoc (gan ddefnyddio dull rhagofalus). Mae'n rhaid iddynt hefyd nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cael y dystiolaeth wyddonol angenrheidiol neu'r rhesymau pam nad oes camau yn cael eu cymryd.

Bydd cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn rhoi'r hyblygrwydd i ni roi mesurau rheoli ar waith fesul stoc, neu bysgodfa, gan roi cipolwg cyfannol ar ein pysgodfeydd a'r cysylltiad rhyngddynt a'r amgylchedd ehangach.

**10. Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynlluniau rheoli pysgodfeydd, oni bai eu bod yn nodi eu bwriad i wneud hynny yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Beth yw eich ymateb i hyn?**

**11. A allwch chi egluro a ydych yn bwriadu cyhoeddi cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar gyfer yr holl stociau, gan gynnwys stociau nad ydynt yn rhan o'r cwota yn nyfroedd Cymru? Os na, sut y byddwch chi'n penderfynu pa stociau ddylai fod yn destun cynllun?**

Hoffwn ymateb i'r cwestiynau hyn gyda'i gilydd, gan ei fod yn hanfodol i ddatblygiad y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd ein bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r polisïau cywir i Gymru.

Mater i bob gweinyddiaeth pysgodfeydd fydd penderfynu pa gynlluniau rheoli pysgodfeydd y bwriedir eu paratoi a bydd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi'r cynlluniau hynny. Mae hyn yn gwbl briodol o ystyried natur ddatganoledig rheoli pysgodfeydd.

Mae'n rhy gynnar i ddweud pa stociau fydd yn destun cynllun rheoli pysgodfeydd. Wrth i ni ddatblygu ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gwyddonwyr a llywodraethau eraill i nodi pa gynlluniau y byddwn yn eu rhoi ar waith.

**12. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon fod y pŵer i Weinidogion Cymru wyro oddi wrth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd yn rhy fras ac y gallai danseilio effeithiolrwydd y Bil wrth ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy. Beth yw eich ymateb i hyn?**

Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio ein hymrwymiad i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy ac rwyf yn cydnabod y pryderon a godwyd. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i unrhyw un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd wyro oddi wrth y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd lle mae newid perthnasol mewn amgylchiadau yn caniatáu iddynt wneud hynny. Ond byddai hynny'n benderfyniad eithriadol a fyddai'n cael ei ystyried o ddifrif ac, wrth gwrs, byddai modd ei herio yn y llys.

Mae nifer o senarios lle y gallai fod angen gwneud hyn. Er enghraifft, os oedd gollyngiad olew, neu newid mewn cyngor gwyddonol, neu unrhyw senario lle y gall fod angen i ni weithredu'n groes i gynnwys y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.

Drwy ddileu'r pŵer i wyro, efallai y byddai'n rhaid drafftio'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ar lefel uchel ac eang iawn er mwyn cadw ein cymwyseddau datganoledig a'r hyblygrwydd sydd ei angen i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. I bob pwrpas, byddai'n sicrhau bod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn ddiystyr ac rwy'n siŵr nad dyma'r bwriad.

**13. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw waith paratoi rydych chi wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf mewn perthynas â'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd?**

Mae'r gweinyddiaethau pysgodfeydd wedi bod wrthi'n datblygu'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys digwyddiad i randdeiliaid ym mis Gorffennaf 2019 lle y gofynnwyd i randdeiliaid ystyried nifer o gategorïau a themâu cysylltiedig, fel man cychwyn. Yn eu plith roedd:

**Rheoli stoc** - Rheoli stociau mewn ffordd gynaliadwy, negodi, cyfleoedd pysgota, pysgod cregyn sy'n rhan o'r cwota a rhai nad ydynt yn rhan o'r cwota, dyframaethu, lleihau nifer y pysgod a waredir

**Llywodraethu ac Ymgysylltu** - Datganoli, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio mewn partneriaeth

**Gweithgareddau ar y tir** - Cymunedau arfordirol, prosesu, marchnata, ystyriaethau o ran y gadwyn gyflenwi, y bwyd môr a fwyteir

**Yr amgylchedd morol** - Ecosystemau morol iach a gwydn, dull ecosystem, llygredd morol, bioamrywiaeth

O ganlyniad i'r gweithdy, nodwyd ardaloedd thematig ar gyfer llunio polisïau a gaiff eu hystyried wrth ddatblygu'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Bydd cynnwys y Cyd-ddatganiad yn esblygu wrth i ni gynnal rhagor o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydweithio â'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-ddatganiad fod yn weithredol o fewn 18 mis i basio'r Ddeddf, ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill i roi'r trefniadau a'r amserlen angenrheidiol ar waith er mwyn cyflawni hyn.

**Mynediad at bysgodfeydd Prydain a rheoleiddio cychod pysgota tramor**

**14. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny? Yn benodol pa ofynion trwyddedu ychwanegol, os o gwbl, ydych chi'n bwriadu eu gosod mewn perthynas â dyfroedd Cymru?**

Sefydlwyd yr Awdurdod Dyroddi Sengl o fewn y Sefydliad Rheoli Morol ac mae cytundeb Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar waith sy'n caniatáu i drwyddedau gael eu rhoi ar ran Gweinidogion Cymru. Caiff unrhyw drwydded a roddir o dan y trefniant hwn ei hawdurdodi yn gyntaf gan swyddogion Llywodraeth Cymru, gan ystyried mynediad blaenorol gan y cwch ac arferion hanesyddol. Bydd pob un o'r gweinyddiaethau pysgodfeydd yn darparu amodau penodol cyffredinol ac ardal, fel cyfyngiadau arbennig os bydd angen. Ar hyn o bryd, nid oes angen trwydded ar gychod yr UE i bysgota yn ein dyfroedd ac, o ganlyniad, nid yw amodau trwydded yn gymwys. Yn y dyfodol, disgwyliaf y bydd cychod tramor yn ddarostyngedig o leiaf i'r un amodau trwydded â chychod y DU sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru.

**15. A allwch chi egluro a fydd y Bil yn atal cychod pysgota tramor rhag cofrestru fel rhai Prydeinig, ac os felly, sut?**

Nid yw'r Bil yn atal cychod tramor rhag cofrestru fel rhai Prydeinig. Yn ymarferol, credwn fod hyn yn annhebygol iawn. Byddai angen i unrhyw gwch sy'n ymuno â fflyd y DU gael mynediad i unrhyw stociau sy'n rhan o gwota er mwyn iddo allu dechrau pysgota. Efallai y bydd cyfle drwy Gyrff Cynhyrchwyr, ond ystyrir nad yw'r camau hyn yn debygol o gael eu cymryd.

Mae hefyd yn bwysig nodi y byddai unrhyw gwch sydd wedi'i gofrestru fel un o gychod y DU yn ddarostyngedig i'r polisïau sy'n cefnogi'r amcan mantais genedlaethol.

**16. A allwch chi egluro a fydd cwmnïau cyhoeddus sydd wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain yn cael eu trin fel rhai Prydeinig?**

Tybiaf nad yw'r cwestiwn hwn yn rhan o'm cylch gwaith. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r Bil, y diffiniadau o "British fishing boat" a "British-owned" yw:

"British fishing boat" means a fishing boat—

(a) which is registered in the United Kingdom under Part 2 of the Merchant Shipping Act 1995,

(b) which is British-owned, or

(c) which is registered under the law of Jersey, Guernsey or the Isle of Man;

"British-owned" means owned by—

(a) a person who is for the purposes of Part 2 of the Merchant Shipping Act 1995 a person qualified to own a British ship, or (

b) two or more persons any one of whom is for those purposes a person so qualified.

**17. A allwch chi gadarnhau a fydd y pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru i osod gofynion trwyddedu yn eu galluogi i fynnu bod teledu cylch cyfyng a monitro electronig o bell yn amod trwydded? Os felly, a ydych chi'n bwriadu gosod amodau o'r fath?**

- **Os nad ydych chi'n bwriadu gosod gofyniad trwyddedu i fynnu bod teledu cylch cyfyng ar gychod a monitro electronig o bell, sut ydych chi'n bwriadu sicrhau gwaith monitro a rheoli effeithiol?**

Mae gennym bŵer eisoes i osod amodau ar drwydded i'r perwyl hwn a bydd y pŵer sydd gennym i wneud hyn yn parhau pan gyflwynir y Bil. Mater i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd yw pennu amodau trwydded. Nid yw arferion pysgota cyfredol cychod a drwyddedir yng Nghymru wedi ei gwneud yn ofynnol i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio hyd yma. Fodd bynnag, gall fod yn rhan o amrywiaeth o opsiynau rheoli a gorfodi yn y dyfodol, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd.

Mae gweinyddiaethau'r DU eisoes yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau gorfodi mewn perthynas â Rheoli a Gorfodi, gan gynnwys Systemau Monitro Cychod a Systemau Cofnodi Electronig. Mae'r ddwy system yn gymwys i bob cwch dros 12 metr o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd gyfredol a gaiff ei chario drosodd i gyfraith y DU. Byddwn hefyd yn ystyried defnyddio pwerau trwyddedu i wella trefniadau adrodd cychod nad ydynt yn rhai o'r DU sy'n gweithredu yn ein dyfroedd, gan gynnwys mesurau fel galw i mewn ac allan wrth weithredu ym Mharth Economaidd Arbennig y DU. Bydd y pwerau hyn yn ymestyn i gynnwys pob cwch nad yw'n gwch o'r DU ac nid dim ond y rheini sydd dros 12 metr. Byddwn hefyd yn defnyddio amodau trwydded i sicrhau bod cychod nad ydynt yn gychod o'r DU yn bodloni gofynion domestig y DU, er enghraifft ardaloedd caeëdig y maent wedi'u heithrio ohonynt ar hyn o bryd.

**Cyfleoedd pysgota**

**18. A allwch chi roi diweddariad ar y cynnydd a wnaed ers mis Mawrth 2019 o ran datblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd a'r Mecanwaith Datrys Anghydfodau?**

Mae gweithgorau trawslywodraethol wrthi'n drafftio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU, ac er bod oedi wedi bod wrth fynd â'r gwaith hwn ragddo dros y flwyddyn ddiwethaf, disgwyliwn y bydd ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddatblygu pob elfen o'r Fframwaith. Rwyf bob amser wedi dadlau pa mor bwysig ydyw bod trefniadau datrys anghydfodau digonol ar waith. Mae prosesau osgoi anghydfodau sefydledig sy'n gysylltiedig â strwythurau lefel portffolio eisoes ar waith. Fe'u gweithredir drwy'r Bwrdd Rhaglen Uwch-swyddogion a, lle y mae angen eu huwchgyfeirio i Weinidogion, drwy'r Grŵp Rhyngweinidogol – Yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig.

Cwmpesir hefyd y trefniadau manwl ar gyfer llywodraethu pysgodfeydd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, osgoi anghydfodau a datrys anghydfodau, a chaiff trefniadau presennol eu hatgyfnerthu drwy ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU.

Hefyd, bydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, sy'n eistedd uwchlaw'r trefniadau lefel portffolio, yn parhau i ddarparu llwybr uwchgyfeirio, os bydd angen.

Mewn perthynas â chymal 23 a phŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar gyfleoedd pysgota, rwyf wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i nodi ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU, neu lwybr amgen os byddwn ein dwy yn cytuno ei fod yn fwy addas, fwy o fanylion am y defnydd bwriadedig o'r pŵer yng nghymal 23 a fydd yn cynnwys atgyfnerthu prosesau ymgynghori. Rwyf wedi atodi llythyr gan Victoria Prentis AS sy'n ailgadarnhau'r ymrwymiad hwn.

**19. A allwch chi egluro pam rydych chi wedi dewis mynd ar drywydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn hytrach na chytundeb dwyochrog (a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â phryderon tebyg am ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd ym Mil Amaethyddiaeth y DU)?**

**20. Pa sicrwydd pellach allwch chi ei ddarparu y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Pysgodfeydd yn bodloni ein pryderon ynghylch cwmpas pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, a nodir yn ein hadroddiad cyntaf?**

Ateb y ddau gwestiwn hyn gyda'i gilydd. Drwy drafodaethau agored ac adeiladol â Llywodraeth y DU, mae'r defnydd o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i drafod yn helaeth, a rhagwelwn y bydd yn fecanwaith priodol ar gyfer nodi sut y byddwn yn cydweithio ar y mater penodol hwn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y gallwn ystyried llwybr amgen os byddwn ein dwy yn cytuno ei fod yn fwy addas.

Mae gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd hanes da o gydweithio'n agos i ddatblygu polisïau rheoli pysgodfeydd a datrys anghydfodau. Yn ogystal â'r cyswllt rheolaidd sydd rhyngddynt â Gweinidogion a swyddogion, mae'r pedair gweinyddiaeth pysgodfeydd wedi llofnodi Concordat 2012 ar "Drefniadau Rheoli Cyfleoedd Pysgota a Thrwyddedu Cychod Pysgota yn y Deyrnas Unedig", sy'n nodi ffyrdd o weithio.

Erys pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol, a nodir yng nghymal 23, yn fater llinell goch i mi am ei bod yn hollbwysig, yn y dyfodol, bod y pŵer hwn yn cael ei arfer mewn ffordd sy'n parchu'r setliad datganoli. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn elfen graidd o Fframwaith Pysgodfeydd y DU, y mae pob un o weinyddiaethau pysgodfeydd y DU yn bwriadu dod yn rhan ohono. Mae cyflawni'r lefel sicrwydd angenrheidiol yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r mater hwn yn flaenoriaeth i mi, ac mae fy swyddogion yn cydweithio i ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn. Byddaf yn edrych ar gynnwys y Bil Amaethyddiaeth a Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth i lywio'r ffordd y byddwn yn datblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gymal 23 o'r Bil Pysgodfeydd, er mwyn sicrhau bod y trefniadau y cytunir arnynt yn gadarn ac yn effeithiol.

**21. A allwch chi roi gwybod i ni beth oedd canlyniad y trafodaethau hynny?**

O ran dosbarthu cyfleoedd pysgota yn y dyfodol, mae'r trafodaethau hynny yn mynd rhagddynt yng nghyd-destun negodiadau â Chomisiwn yr UE ar gydberthnasau yn y dyfodol. Mae fy swyddogion yn darparu'r manylion o ran sut mae angen i ganlyniadau'r negodiadau hynny adlewyrchu anghenion Cymru wrth ail-gydbwyso'r cyfleoedd a ddosberthir, yn enwedig fel y maent yn bodoli ym mharth Cymru.

**22. A allwch chi egluro pam rydych chi'n ceisio'r pwerau newydd hyn, a phryd a sut rydych chi'n bwriadu eu defnyddio?**

Yn Brexit a'n Moroedd, ceisiais farn ar sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'r cwota sydd ar gael i Gymru. Gwnaethom hefyd gomisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ystyried sut y gallwn ddefnyddio cyfleoedd pysgota yn well yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fel y cyfryw, bydd y broses o ddosbarthu cyfleoedd pysgota yn rhan allweddol o'n Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd, a theimlais ei bod yn ddoeth cynnwys pŵer yn y Bil er mwyn sicrhau na fydd unrhyw gyfyngiadau ar ein hopsiynau i ddatblygu polisïau.

Felly, mae'n fuddiol sicrhau pŵer galluogi nawr (dros dro nes i mi allu cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru) sy'n cyfateb i'r pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf priodol o'r cyfleoedd pysgota sydd ar gael.

Gallai'r pŵer i werthu cyfleoedd pysgota blynyddol gynhyrchu refeniw a allai gael ei ailfuddsoddi yn y diwydiant pysgota yng Nghymru i'w helpu i addasu a manteisio ar gyfleoedd pysgota ychwanegol yn y dyfodol.

Nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun o'r fath ar hyn o bryd. Ni chadarnhawyd manylion unrhyw drefniadau yn y dyfodol eto a gallaf gadarnhau, os byddwn yn ystyried defnyddio'r pwerau yn Atodlen 5 i gyflwyno cynllun, y caiff proses ymgynghori ei chynnal er mwyn i Lywodraeth Cymru gael gwybod am gryfder y teimladau a'r cydbwysedd barn ynghylch cynllun o'r fath.

**23. A allwch egluro a fydd y pwerau hyn:**

- **yn cael eu defnyddio i werthu cwota Cymru i gychod pysgota tramor; ac**
- **yn gyfyngedig i werthu cwota ychwanegol y gellir ei ennill ar ôl i'r DU ymadael â’r UE?**

Ni ragwelaf y byddai cynllun o'r fath, pe bai'n cael ei gyflwyno, yn cael ei ddefnyddio i werthu cwota Cymru i gychod tramor oni cheir tystiolaeth glir o'r manteision i gymunedau arfordirol yng Nghymru. Bydd negodiadau blynyddol rhwng gwledydd arfordirol yn ymdrin â chyfnewid cwotâu rhwng y DU a gwledydd arfordirol eraill a bydd cyfranogiad fy swyddogion yn sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru. Wrth ystyried y pŵer hwn, disgwyliwn iddo fod yn gymwys i gwotâu ychwanegol yn unig. Fodd bynnag, bydd hyn yn ddarostyngedig i'r polisïau a ddatblygir a'r broses o ymgynghori ar unrhyw gynigion.

**Cynlluniau codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod**

**24. A allwch chi egluro pam nad ydych chi'n ceisio pwerau i sefydlu cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod? Beth fyddai anfanteision cynllun codi tâl er mwyn atal gwaredu pysgod yn eich barn chi?**

Yng Nghymru, mae ein diwydiannau pysgota yn wahanol i'r rhai yn Lloegr ac mae'r fflyd yng Nghymru yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r Rhwymedigaeth Lanio fel y'i diffinnir yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Mae cynllun codi tâl yn awgrymu lefel fonitro a goruchwyliaeth nad yw'n gymesur yn fy marn i â materion sy'n ymwneud â'r fflyd sy'n pysgota glannau Cymru ar hyn o bryd.

Mae hwn yn faes datganoledig a byddwn yn penderfynu sut yr awn ati i gyflawni'r amcan sgil-ddalfa wrth i ni ddatblygu polisïau drwy ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd. Caiff y polisïau hyn eu nodi yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Bydd angen i ni ystyried unrhyw gynigion ar gyfer y cynllun, ynghyd â dulliau gweithredu eraill, a all fod yn fwy priodol i fflyd sy'n pysgota'r glannau yn bennaf.

**Pwerau cymorth ariannu**

**25. A allwch chi egluro pam y mae’r dibenion wedi cael eu hehangu, ac amlinellu sut y gellir defnyddio'r dibenion newydd hyn yng nghyd-destun Cymru?**

Mae'r pwerau wedi cael eu hehangu er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb i'r hyn a ariennir o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Rydym yn cefnogi'r manylion ychwanegol a'r eglurder ynghylch yr ardaloedd a fyddai'n cael eu cwmpasu gan y pŵer galluogi hwn. Wrth symud ymlaen, caiff y broses o gyflwyno cynllun i ddisodli Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ei llywio gan ganlyniadau ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd ac amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Bydd cynllun newydd yn gyfle i ni gyflawni ein dyheadau polisi, felly mae sicrhau bod y pŵer yn ddigon eang yn allweddol i gyflawni hyn. Bydd unrhyw gynllun yn ddarostyngedig i reoliadau cadarnhaol a lefelau priodol o ymgynghori a chraffu.

**26. A allwch chi roi manylion am y llinell amser rydych chi'n gweithio tuag ati ar gyfer datblygu unrhyw gynllun cymorth ariannol newydd?**

Mae Ysgrifennydd Amgylcheddol y DU wedi ymrwymo i sicrhau y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi trefniadau domestig hirdymor newydd ar waith i gefnogi diwydiant pysgota ac amgylchedd morol y DU, drwy greu pedwar cynllun newydd tebyg i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i ddarparu cyllid i bob gwlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai yn sgil ymadael â'r UE.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i nodi cyfleoedd i sicrhau bod sectorau morol y DU yn profi'r twf economaidd mwyaf posibl. Bydd y gwaith hwn yn llywio polisïau ar y ffordd orau o gefnogi twf cynaliadwy y sectorau diwydiant gwahanol mewn ffordd strategol a syml.

Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn arwain y gwaith a wneir ar eu cynlluniau eu hunain a bydd trafodaethau yn parhau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu cynigion, gan ystyried effeithiau Brexit a COVID-19. Bydd y rhain yn pennu'r amserlen ar gyfer ymgynghori ar y cynllun newydd.

**27. Pa drafodaethau a gafwyd â Llywodraeth y DU cyn cyflwyno Bil 2019-21 ynglŷn â chynnwys gofyniad o'r fath yn y fersiwn ddiweddaraf hon o'r Bil? Beth oedd canlyniad y trafodaethau hyn?**

**28. A allwch chi esbonio'r rhesymeg am y gwahaniaeth hwn o ran dull gweithredu?**

Atebaf gwestiynau 27 ac 28 gyda'i gilydd. Parhaodd trafodaethau rhwng fy swyddogion a Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gynnwys darpariaeth ymgynghori, yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor y llynedd. Y risg allweddol a nodwyd yn y trafodaethau hynny oedd beth pe bai angen i ni weithredu mewn argyfwng (er enghraifft, yn dilyn trychineb naturiol neu ddigwyddiad mawr). Pe bai hynny'n digwydd, byddai Gweinidogion Cymru yn rhwymedig i ddarpariaeth ymgynghori, yn wahanol i'r gweinyddiaethau eraill. Gallai hyn fod yn anfanteisiol i Gymru a physgotwyr yng Nghymru, lle y gallai Gweinidogion Cymru ganfod na allent weithredu'n gyflym, tra bod y gweinyddiaethau eraill yn gallu cymryd camau ar unwaith.

Mae'r pandemig COVID-19 presennol wedi atgyfnerthu hyn ac wedi dangos yn glir bod angen lefel o hyblygrwydd er mwyn galluogi'r llywodraeth i weithredu mewn argyfwng. Y safbwynt o hyd yw mai dewis olaf fyddai cyflwyno cynllun heb ymgynghori'n llawn ac yn fanwl â'r bobl hynny y byddai'r cynllun yn effeithio arnynt a'r rheini a fyddai'n manteisio arno. Polisi Llywodraeth Cymru yw ymgynghori cyn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth ac, ym mhob senario, byddai'r rheoliadau a wneir o dan atodlen 6 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

O ran y pwerau yn atodlenni 5 a 7, ni allwn weld y byddai'r un angen i weithredu mewn argyfwng felly rydym yn fodlon ar y darpariaethau fel y'u drafftiwyd, sy'n gyson â pholisi Llywodraeth Cymru ar ymgynghori.

**Adnoddau a chapasiti**

**29. I ba raddau y mae gan Is-adran Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru y gallu staffio i ymdrin â'r allbynnau a'r cyfrifoldebau newydd a fyddai'n codi o Fil 2019-2021, gan gynnwys:**

- **datblygu rheoliadau newydd;**
- **Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd newydd;**
- **trefniadau rhynglywodraethol newydd gan gynnwys y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac unrhyw drefniadau datrys anghydfod; a**
- **mwy o gyfrifoldeb datganoledig o dan y Bil am reoleiddio pysgodfeydd ym mharth Cymru?**

**30. A ydych chi'n disgwyl i hyn effeithio ar feysydd gwaith eraill yr Is-adran?**

**31. Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o oblygiadau ariannol Bil 2019-21, ac a allwch chi roi manylion yr asesiad hwnnw i ni?**

Atebaf gwestiynau 29 – 31 gyda'i gilydd. Bil y DU yw hwn ac, oherwydd natur fframwaith y Bil, nid oes Asesiad o Effaith wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth y DU.

Mater i'r Gwasanaeth Sifil yw'r lefel staffio a'r anghenion adnoddau ehangach. Serch hynny, disgwyliwn mai ychydig iawn o gostau uniongyrchol fydd yn gysylltiedig â'r Bil. Yn anuniongyrchol, bydd prosesau datblygu polisi yn pennu sut y byddwn yn defnyddio rhai o'r pwerau newydd, a fydd yn cynnwys ystyried opsiynau a goblygiadau ariannol. Bydd ein gwaith ar y Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd yn llywio'r ffordd y bwriadwn ddefnyddio'r pwerau yn y Bil.

**Bil Pysgodfeydd i Gymru**

**32. A allwch chi egluro pryd a pham y gwnaethoch benderfynu peidio â chyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru cyn diwedd y Pumed Cynulliad?**

Mae'r amseru o ran cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn dibynnu ar ba bryd y daw Bil y DU i rym. Bydd Bil y DU yn ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod. Bydd y cam cyfansoddiadol arwyddocaol hwn ymlaen yn ein galluogi ni i gyflwyno bil pysgodfeydd cynhwysfawr i Gymru, a'r Senedd i ddeddfu ar gyfer Cymru a pharth Cymru.

Mae'n fwriad gennyf o hyd i gymryd y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru ym Mil Pysgodfeydd y DU fel mesur interim nes y gellir cyflwyno bil pysgodfeydd cynhwysfawr i Gymru sy'n cwmpasu Cymru a pharth Cymru. Mae'r ddibyniaeth ar amseru Bil y DU a chamau nesaf ein Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd yn golygu na allaf fod yn siŵr o'r amseru ac, yn sicr, ni fydd yn bosibl cyflwyno Bil cyn diwedd y Cynulliad hwn, o ystyried yr oedi a gafwyd o ran y Bil y llynedd a'r pandemig COVID-19 presennol.

Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith polisi i lywio'r Bil gyda'n hymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. Byddai cynnwys terfynol Bil yn ddarostyngedig i'r gwaith polisi pellach hwn a'r trafodaethau a gynhelir â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu'r gwaith. Hyd nes y cynhelir y trafodaethau hynny, mae'n anodd rhagweld yn union pa bwerau pellach y byddai eu hangen arnom a phryd y caiff y Bil ei gyflwyno.

**33. A allwch chi esbonio'r rhesymeg am y gwahaniaeth hwn o ran dull gweithredu?**

- **A ydych o'r farn y byddai'n well cynnwys cymal machlud ym Mil Pysgodfeydd y DU 2019-21? Os na, pam hynny?**

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dywedais y byddwn yn ailystyried a ddylai'r Bil gynnwys darpariaethau machlud mewn perthynas â'r darpariaethau i Gymru.
Mae fy safbwynt yn glir. Ystyriaf mai darpariaethau dros dro yw'r darpariaethau hynny i Gymru nad ydynt yn ymwneud â'r fframwaith cyffredin, nes y cyflwynir Bil Pysgodfeydd i Gymru ar yr adeg briodol.

Rydym yn gweithio i gyflwyno Polisi ar Ddyfodol Pysgodfeydd sy'n addas at y diben ac mae angen gwneud hyn o fewn amserlenni rhesymol sy'n ein galluogi i fyfyrio ar ganlyniadau Brexit a'r effaith ar ein diwydiant. Mae'r effeithiau yn cael eu gwaethygu nawr gan argyfwng COVID-19. Mae'r angen i ymateb i'r sefyllfa ddigynsail hon yn dangos pam mae angen i ni gadw ein pwerau cyfreithiol yn hyblyg, o ystyried yr angen i ymateb i flaenoriaethau newidiol ac i roi ffocws newydd ar adnoddau yn unol â hynny.

Ar yr adeg hon, er gwaethaf fy ymrwymiad i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn ystod tymor nesaf y Senedd, ni allaf warantu pryd y caiff y Bil ei gynnwys yn Rhaglen Ddeddfwriaethol y Senedd, ac nid wyf am greu risg y caiff pwerau allweddol y gall fod eu hangen arnom yn y dyfodol eu colli drwy gynnwys darpariaethau machlud ym Mil y DU.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

CC Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Department
for Environment
Food & Rural Affairs

**Victoria Prentis MP**
Parliamentary Under Secretary of State

Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

T 03459 335577
defra.helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Lesley Griffiths AM
House of Commons
London
SW1A 0AA

Your ref: IM/LG/00265/20
Our ref: MC2020/02128/GW

8 April 2020

Dear Lesley,

Thank you for your letter of 29 January to the former Minister of State about the Fisheries Bill. I am replying as the Minister responsible for this policy area. I apologise for the delay in responding. Defra is currently dealing with high volumes of correspondence due to COVID-19. Thank you for your understanding during this challenging time

It was good to speak to you on 9 March and I thank you for your letter of 11 February in which you confirmed that you would begin the legislative consent process, and for the subsequent Memorandum of Understanding (MoU) laid on 12 February.

I echo your view that the constructive collaboration between officials has led to a Bill that delivers effectively for fishing industries right across the UK. I am grateful for your confirmation that you were content with the approach taken to a UK wide framework in the Bill, including through the fisheries objectives, Joint Fisheries Statement, and fisheries management plans. Again, these provisions have been strengthened by officials working together and I would like to thank them.

You raised two further issues. Firstly, the Government of Wales Act (GoWA) 2006. I am aware that officials in the Welsh Office have shared drafting responsibilities of the section 109 GoWA Order with your officials, and that this work is at an advanced stage. The Government is clear that the consent requirements will not apply should the Assembly decide to remove the concurrent powers in the Fisheries Bill from Ministers of the Crown in future. As such I am assured that this matter is close to resolution and will not require an amendment to the Bill.

Secondly, the determination of fishing opportunities, as officials have discussed, the power set out in clause 23, which allows for the Secretary of State to determine fishing opportunities for the UK, is not a devolved matter. The determination of the UK quota cannot, by its nature, be a devolved function and is therefore a function of the Secretary of State. We agree that the implementation of the UK's international obligations is a devolved matter: managing the share of the UK's fishing opportunities allocated to Welsh Ministers in accordance with the UK's international obligations is of course a matter for Wales.

Clause 24 of the Bill obliges the Secretary of State to consult all Administrations before making or withdrawing a determination under clause 23. That said, I am happy to make clear through the MoU, or another route if we both agree that is more suitable, the commitment you previously received that we will set out the circumstances in which the power under Clause 23 will be exercised, and how consultation provisions could be strengthened beyond those set out in the Bill.

An early opportunity for putting consultation and cooperation into practice will come from the need to work together on defining additional quota, and considering how that might be allocated across the four Administrations. We will also work together on the Joint Fisheries Statement and on Fisheries Management Plans. We should also update the UK Quota Management Rules and this would again provide a good opportunity to collaborate.

I hope that these responses have provided you with the assurances you were seeking, and that you can now seek to recommend consent to the Assembly. I am hopeful that the legislative consent motion can be passed within the passage of the Bill through the House of Lords.

I would like to again thank you and your officials for your engagement this far and look forward to working with you as the Fisheries Bill progresses and on other matters too.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales.

Yours sincerely,

Victoria Prentis

**VICTORIA PRENTIS MP**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon